**CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU**
**COFNODION:**
**Dyddiad:** 11 Chwefror 2003
**Amser:** 9:30 a.m.
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Presennol:**

| | |
|---|---|
| Mick Bates | (Democrat Rhyddfrydol) |
| Rosemary Butler | (Llafur) |
| Ron Davies | (Llafur) |
| Huw Lewis | (Llafur) |
| Dr Dai Lloyd | (Plaid Cymru) |
| Tom Middlehurst | (Llafur) |
| Owen John Thomas | (Plaid Cymru) |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| John Turnbull | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| Huw Rowlands | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Simon Thwaite | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**: Pauline Jarman.

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion sy'n codi: LEG-03-2003 (min)**
1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Chwefror 2003.

**Eitem 2: Adroddiad y Cadeirydd**
2.1 Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau o'r penderfyniad, yn y cyfarfod diwethaf, y dylai ysgrifennu llythyr at y Llywydd ynglŷn â'r angen i ddatrys un o'r materion nad aethpwyd i'r afael ag ef yn yr Adolygiad o Weithdrefnau'r Cynulliad, h.y. yr argymhelliad y dylai'r Pwyllgor Deddfau ystyried p'un a gydymffurfiwyd â gweithdrefnau is-ddeddfwriaeth y Cynulliad mewn materion fel darparu arfarniadau rheoliadol. At hynny, dywedodd y Cadeirydd, fodd bynnag, bod y Pwyllgor Busnes wedi cytuno i wahodd y Pwyllgor Deddfau i baratoi papur ar gyfer y Pwyllgor Busnes ar y mater, yn ei gyfarfod ar 4ydd Chwefror 2003. Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor fod y mater hwn wedi ei roi fel Eitem 5 ar yr Agenda.

**Eitem 3: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried**
**LC613 – Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Atgyfeiriadau ac Apelau) (Gweithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig) (Cymru) 2003**
3.1 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.2 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, daeth yr Aelodau i'r casgliad bod yna fater i'w godi o dan Reol Sefydlog 11.5. Mae'r Pwyllgor yn gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i wall drafftio ymddangosiadol sy'n ymwneud â rheoliad 2. Gellir cywiro hwn drwy Femorandwm Cywiriadau.

3.3 Gwnaeth y Pwyllgor hefyd sylw y dylid ei gofnodi yn ei adroddiad ym marn y Pwyllgor.

3.4 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC613 (Adroddiad).

**LC614 – Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysiadau Gorfodi ac Apelau) (Cymru) 2003**
3.5 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.6 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, daeth yr Aelodau i'r casgliad bod yna fater i'w godi o dan Reol Sefydlog 11.5. Mae'r Pwyllgor yn gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i wallau drafftio ymddangosiadol sy'n ymwneud ag anghysondebau rhwng y testun Cymraeg a Saesneg o ran y dyddiad dod i rym. Gellir ei gywiro drwy Femorandwm Cywiriadau.

3.7 Gwnaeth y Pwyllgor hefyd sylw y dylid ei gofnodi yn ei adroddiad ym marn y Pwyllgor.

3.8 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC614 (Adroddiad).

**LC615 – Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Gorfodi) (Gweithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig) (Cymru) 2003**
3.9 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.10 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor dri sylw y dylid eu cofnodi yn yr adroddiad ym marn y Pwyllgor.

3.11 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC615 (Adroddiad).

**LC619 – Gorchymyn Cimychiaid Rhy Fach (Cymru) 2003**
3.12 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.13 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. ac nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau ychwaith.

3.14 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC619 (Adroddiad).

**LC620 – Rheoliadau Cymorthdaliadau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) (Diwygio) 2003**
3.15 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.16 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol y cyfle i weld drafft cynnar a nodwyd dau bwynt drafftio bach a ystyriwyd yn y drafft terfynol.

3.17 Gwnaeth y Pwyllgor hefyd sylw y dylid ei gofnodi yn ei adroddiad ym marn y Pwyllgor.

3.18 Tynnwyd sylw at wall teipograffyddol yn y testun Cymraeg o adroddiad yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol. Penderfynwyd cywiro'r mater hwn cyn cyflwyno'r adroddiad gerbron y Cynulliad.
**Gweithredu: Dirprwy Glerc**

3.19 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC620 (Adroddiad).

**LC621 – Gorchymyn Gwahardd Cadw neu Ollwng Pysgod Byw (Rhywogaethau Penodedig) (Diwygio) (Cymru) 2003**
3.20 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.21 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor sylw y dylid ei gofnodi yn yr adroddiad ym marn y Pwyllgor.

3.22 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC621 (Adroddiad).

**LC622 – Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Diwygio) (Cymru) 2003**
3.23 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Safonol.

3.24 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, daeth yr Aelodau i'r casgliad bod yna fater i'w godi o dan Reol Sefydlog 11.5. Mae'r Pwyllgor yn gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i wallau drafftio ymddangosiadol sy'n perthyn i'r testun a fewnosodwyd yn Rheoliad 3(4) a (5). Gellir ei gywiro drwy Femorandwm Cywiriadau.

3.25 Gwnaeth y Pwyllgor hefyd rai sylwadau y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad ym marn y Pwyllgor.

3.26 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC622 (Adroddiad).

**LC623 – Gorchymyn Deddf Diwygio'r Heddlu 2002 (Cychwyn) (Cymru) 2003**
3.27 Cyflwynodd Mr Rowlands yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Safonol.

3.28 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. ac nid oedd ganddo unrhyw sylwadau ychwaith.

3.29 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC623 (Adroddiad).

**LC624 – Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Cyfansoddiad) (Diwygio) 2003**
3.30 Cyflwynodd Mr Rowlands yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.31 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. ac nid oedd ganddo unrhyw sylwadau ychwaith.

3.32 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC624 (Adroddiad).

**LC616 – Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Diwygio) (Cymru) 2003**
3.33 Cyflwynodd Mr Rowlands yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.34 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. ac nid oedd ganddo unrhyw sylwadau ychwaith.

3.35 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC616 (Adroddiad).

**LC617 – Rheoliadau Premiwm Blynyddol Defaid (Diwygio) (Cymru) 2003**
3.36 Cyflwynodd Mr Rowlands yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.37 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. ac nid oedd ganddo unrhyw sylwadau ychwaith.

3.38 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC617 (Adroddiad).

**LC618 – Rheoliadau Dyrannu Tai (Cymru) 2003**
3.39 Cyflwynodd Mr Rowlands yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.40 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. ac nid oedd ganddo unrhyw sylwadau ychwaith.

3.41 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC618 (Adroddiad).

**LC625 – Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Diwygio) 2003**
3.42 Cyflwynodd Mr Rowlands yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.43 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. ac nid oedd ganddo unrhyw sylwadau ychwaith.

3.44 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC625 (Adroddiad).

**LC626 – Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) 2003**
3.45 Cyflwynodd Mr Rowlands yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.46 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor sylw y dylid ei gofnodi yn ei adroddiad ym marn y Pwyllgor.

3.47 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC626 (Adroddiad).

**Eitem 4: Ystyried cynnig am femorandwm cywiriadau mewn perthynas â LC612 – Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Refferenda) (Deisebau a Chyfarwyddiadau) (Diwygio) (Cymru) 2003**
4.1 Dylai'r cyfeiriadau yn y testun a fewnosodwyd at y "y dyddiad y daw'r rheoliadau hyn i rym" fod yn gyfeiriadau at y dyddiad gwirioneddol, sef 4 Ebrill. Roedd y cyfeiriadau at y dyddiad dod i rym wedi eu mewnosod mewn camgymeriad oherwydd, yn rhinwedd y ffaith ei fod mewn testun a fewnosodwyd, ei fod yn anwybyddu'r pwynt y byddai wedi cyfeirio at y ffaith bod y rheoliadau gwreiddiol yn dod i rym yn hytrach na (fel y bwriadwyd) y ffaith bod y rheoliadau diwygio yn dod i rym.

4.2 Cytunodd y Pwyllgor fod y cywiriadau hyn yn briodol ar gyfer Memorandwm Cywiriadau.

**Eitem 5: Papur ar gyfer y Pwyllgor Busnes ynghylch Argymhelliad Adolygiad o Weithdrefnau'r Cynulliad (Paragraff 8.10 o'r Adroddiad Terfynol)**
5.1 Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i ystyried ymateb drafft i wahoddiad y Pwyllgor Busnes i baratoi papur ynghylch gweithredu'r argymhelliad nad aethpwyd i'r afael ag ef yn yr Adolygiad o Weithdrefnau'r Cynulliad sef y dylai'r Pwyllgor Deddfau ystyried p'un a gydymffurfiwyd â gweithdrefnau is-ddeddfwriaeth y Cynulliad mewn materion fel darparu arfarniadau rheoliadol.

5.2 Roedd yr Aelodau yn fodlon yn amodol ar dalfyrru'r ail ddyfyniad yn yr ymateb. Penderfynwyd y dylai'r Cadeirydd anfon yr ymateb at y Dirprwy Lywydd a chopi at y Llywydd. **Gweithredu: Clerc**

**Eitem 6: Unrhyw Fater Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**
6.1 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 25 Chwefror 2003.